ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	7 Rhagfyr 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706066
PWNC:	Ystyriaeth ar gyfer Proses Dros Dro ar gyfer Cerbydau sy'n Newydd i'r Fflyd

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 I Aelodau ystyried adolygu'r gofynion presennol ar gyfer cerbydau a drwyddedir yn gyntaf gan y Cyngor.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Gofynnodd Aelodau i swyddogion adolygu'r gofynion polisi cyfredol ar gyfer cerbydau a drwyddedir yn gyntaf gan y Cyngor i fod dim mwy na 5 oed o'r cofrestriad cyntaf, gyda'r golwg o lacio'r amod i uchafswm o 8 oed fel mesur dros dro tan fydd adolygiad pellach yn cael ei gyflawni eto.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Cafodd polisi presennol cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ynghyd â manylion ac amodau'r cerbydau, eu cymeradwyo yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2016, yn dilyn ymgynghori helaeth, a daeth i rym ar 1 Gorffennaf 2017. Bu nifer o fân newidiadau ers y dyddiad hwnnw.

4.2 Mae'r amodau ym mharagraffau 2.4.3 a 5.4.3 yn gosod cyfyngiad oedran ar gerbydau pa unai ydynt yn newydd neu'n cael eu hadnewyddu, sef bod rhaid i bob cerbyd newydd i'r fflyd fod o leiaf 5 mlwydd oed ac mae'n rhaid i unrhyw gerbyd sy'n cyrraedd 12 oed gael eu tynnu.

4.3 Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu, penderfynodd yr Aelodau awdurdodi swyddogion i edrych i mewn i broses o ddirprwyaeth ar gyfer penderfynu ar geisiadau cerbydau fflyd newydd ar gyfer cerbydau dros 5 oed ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod fis Rhagfyr. Er nad yw wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, penderfynodd yr Aelodau ymgynghori ymhellach ar addasu'r polisi oedran cerbydau drwy lacio oedran newydd i'r fflyd a'r terfyn oedran uwch.

4.4 Bydd Aelodau'n cofio mai'r rhesymau dros ystyried y cais i lacio'r gofyniad oedran newydd i'r fflyd oedd argaeledd a chostau cerbydau o dan 5 oed a'r anawsterau roedd rhai perchnogion yn eu cael wrth ddod o hyd i gerbydau addas o oedran perthnasol.

4.5 Hefyd, roedd swyddogion o fewn yr adain Cludiant i Deithwyr y Cyngor wedi dynodi fod anawsterau o ran dod o hyd i gerbydau 8 sedd addas i gario dysgwyr, yn arbennig o fusnesau lleol. Cawn ein harwain i gredu fod hyn yn rhannol oherwydd bod gan awdurdodau eraill bolisïau cyflwr cerbydau gwahanol.

4.6 O'r 281 o gerbydau wedi'u trwyddedu gan y Cyngor mae 22 ohonynt dros 12 oed a disgwylir iddynt gael eu hamnewid yn fuan. O'r rhain, nodwyd fod deuddeg yn dal 8 o bobl. Gall yr holl gerbydau hyn fod o dan drwydded o dan gyflwr hen hawliau, a gafodd eu haddasu i Orffennaf 2024 gan Aelodau yn y cyfarfod diwethaf.

4.7 Mae cyfanswm o 69 o gerbydau wedi'u trwyddedu (25%) all gario 8 o deithwyr, gydag 19 ohonynt wedi'u rhestru yn hygyrch i gadeiriau olwyn (mae 7 o gerbydau eraill yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ond gyda chapasiti llai).

4.8 Mae dros 50% o'r fflyd gyfredol yn 5 oed neu lai ac mae bron i 40% arall rhwng 5 a 10 oed.

5. YSTYRIAETHAU

5.1 Mae dadansoddiad o oedrannau cerbydau ar draws y fflyd yn dynodi buddsoddiad sylweddol gan berchnogion hyd yn hyn. Er bod ychydig o ymyrraeth wedi bod i'r diwydiant manwerthu modur, nodwyd fod 91 o gerbydau (32%) wedi cael eu trwyddedu gyntaf ers y pandemig ym Mawrth 2020 ac felly yn 5 oed ar y mwyaf. Nodwyd hefyd fod 46 o gerbydau o'r cerbydau hynny wedi cael eu cyflwyno yn 2022.

5.2 Mae Swyddogion o'n Gwasanaethau Fflyd wedi darparu rhai costau o ran gwerthiant manwerthu cerbydau gyda chymorth Gwerthwr lleol gydag enw da. Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â cherbydau a ddefnyddir yn

gyffredinol ar gyfer cerbydau trwyddedig, ac yn seiliedig ar werth “Cap Clean”, sef safon y diwydiant ar gyfer gwerthwyr ac yswirwyr. Roedd ffigyrau yn gywir ar 4 Tachwedd.

5.2.1 Car Stad Brand Premiwm

- Car Stad Skoda Octavia 2.0TDi SE-L
- 2019 gyda 80,000 o filltiroedd ‘Cap Clean’ £10,100.
- 2016 gyda 80,000 o filltiroedd ‘Cap Clean’ £6,950.
- Addasiad o 3 oed - yr un milltiroedd / gwahaniaeth mewn cyflwr yn £3,150

5.2.2 Car Cefn Codi (Hatchback) / Salŵn 4 drws Canol y Farchnad

- Car Cefn Codi Vauxhall Insignia 1.6TD SRi.
- 2019 gyda 60,000 o filltiroedd ‘Cap Clean’ £9,425.
- 2017 gyda 60,000 o filltiroedd ‘Cap Clean’ £7,725.
- Addasiad o 2 oed - yr un milltiroedd / gwahaniaeth mewn cyflwr yn £1,700.

5.3 Cafodd Rhaglen Asesu Ceir Newydd Ewro (Euro NCAP) ei sefydlu er mwyn darparu cyfradd diogelwch annibynnol ar gyfer ceir newydd. Mae cyfraddau Euro NCAP yn ystyried tair ffactor diogelwch - ar gyfer oedolion, plant a cherddwyr - yn ogystal â lefel technoleg diogelwch yn y car. Er nad yw’n ofyniad cyfreithiol, mae’n cael ei ystyried yn feini prawf annibynnol ar gyfer ceir newydd. Mae sgôr Euro NCAP car yn dod i ben ar ôl chwe blynedd. Er bod hyn yn bennaf yn sgil Euro NCAP yn codi ei safonau sgorio yn gyson wrth i dechnoleg ddatblygu, ac nid yn sgil dirywiad mewn agweddau diogelwch cerbyd, mae’n dynodi safonau diogelwch cynyddol sy’n debygol o fod mewn cerbydau mwy newydd.

5.4 Dylid nodi fod unrhyw warant cerbyd wedi’i gyfyngu pan ddefnyddir cerbyd fel cerbyd trwyddedig, ac yr un yw’r achos ar gyfer cerbydau sy’n cael eu cynnig ar gyfer eu defnyddio gan yrwyr trwyddedig yn y profion cerbydau trydan yn Sir Ddinbych. Felly mae’n bosibl na fydd cerbydau yn manteisio o warant wrth gael eu cyflwyno i’r fflyd.

5.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu cyhoeddi papur gwyn ar gyfer ymgynghoriaeth yn gynnar yn 2023 o ran deddfwriaeth tacsi. Mae safonau cerbydau o fewn y cwmpas ac felly mae’n bosibl y bydd yn cynnwys elfen o ofyniad oedran.

5.6 Gall Aelodau nodi fod cerbydau hŷn yn tueddu i fod ag allyriadau uwch gan eu bod yn defnyddio technoleg rheoli allyriadau llai soffistigedig na cherbydau newydd, a gallent fod wedi cael eu hadeiladu i safonau allyriadau llai llym. Er y cydnabyddir y dylai allyriadau aros yr un fath ar gyfer oes y cerbyd, bydd oedran yn ffactor fawr mewn unrhyw ddirywiad

o'r safonau hynny yn sgil traul ar y darnau, ac yn bwysicach, amserlen cynnal a chadw rheolaidd a chadarn. Er bod nifer o gerbydau ail-law yn cael eu gwerthu gyda hanes gwasanaeth, mae rhai yn cael eu gwerthu heb unrhyw gofnod o wasanaeth cydnabyddedig.

5.7 Mae holl gerbydau sydd wedi'u cofrestru gyntaf ar ôl 1992, wedi cael eu cynhyrchu i safon benodol ar gyfer allyriadau a fydd yn dynodi'r safon ar gyfer oes y cerbyd, oni bai bod rhif cofrestru'r cynhyrchwr yn dynodi fel arall. Mae'r safonau'n cael eu profi yn ystod MOT ac fel a ganlyn ar gyfer cerbydau sydd wedi'u cofrestru gyntaf:

- Euro 1 - 31 Rhagfyr 1992
- Euro 2 - 1 Ionawr 1997
- Euro 3 - 1 Ionawr 2001
- Euro 4 - 1 Ionawr 2006
- Euro 5 - 1 Ionawr 2011
- Euro 6 - 1 Medi 2015

Dylai Aelodau nodi fod cerbydau hyd at 7 oed angen cydymffurfio â'r safonau allyriadau uchaf.

5.8 Er bod yr holl wybodaeth uchod yn berthnasol, mae Swyddogion yn ystyriol o'r agweddau pwysig canlynol:

a. Ychydig iawn o gerbydau sy'n parhau yn y fflyd os ydynt dros y trothwy 12 oed, ac o'r rheiny mae'r perchnogion yn gallu manteisio ar y rheol hen hawliau tan 2024.
b. Mae nifer sylweddol o gerbydau wedi cael eu cyflwyno i'r fflyd hyd yn hyn o ganlyniad i fuddsoddiad gan y perchnogion.
c. Y cynnydd mewn safonau diogelwch wrth i dechnoleg cerbydau ddatblygu
d. Adolygiad Llywodraeth Cymru o safonau tacsis yng Nghymru, a'r papur gwyn sydd ar y gweill, sy'n debygol o gynnwys oedran cerbydau.

6. ARGYMHELLIAD

6.1 Wrth nodi'r ystyriaethau a amlinellir uchod, bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn penderfynu cadw at y polisi oedran presennol i gerbydau sy'n newydd i'r fflyd fod o dan 5 oed, ac y dylai unrhyw gerbyd sydd yn y fflyd gael eu tynnu pan fyddent yn cyrraedd 12 oed, oni bai fod yr hen hawliau yn gymwys hyd at Orffennaf 2024.

6.2 Bod Aelodau'n cyfarwyddo'r swyddogion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Trwyddedu o ran manylion adolygiad Llywodraeth Cymru o safonau tacsis ar amser priodol yn ystod 2023.